# Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru

## Mawrth 2019

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, i ddefnyddwyr ystadegau o Gymru ar ein datblygiadau, ein hymgynghoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.

Ceir rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein calendr cyhoeddiadau

### Yr economi a'r farchnad lafur

Yn ogystal â'r diweddariadau rheolaidd i'n hystadegau economaidd allweddol, mae diweddariadau eraill yn cynnwys ystadegau ar Werth Ychwanegol Gros (GVA) rhanbarthol ac is-ranbarthol (GVA), proffiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd, dangosyddion allbynnau tymor byr ar gyfer gwasanaethau'r farchnad a chynhyrchu ac adeiladu a Thwf Swyddi Cymru.

### Addysg

Yn ddiweddar cyhoeddwyd Cyflawniad academaidd yn ôl nodweddion disgyblion, 2018. Eleni, i wella hygyrchedd mae'r tablau data manwl wedi'u cyhoeddi ar StatsCymru. Cyn hynny, roedd y data'n cael eu cyhoeddi ar daenlen Excel.

I gael rhagor o wybodaeth neu i roi unrhyw adborth, cysylltwch â ni yn Ystadegau.Ysgolion@llyw.cymru.

### Yr amgylchedd a thai

**Arolwg o Gyflwr Tai yng Nghymru 2017-18 (ACTC)**

Ar 6 Rhagfyr 2018 cyhoeddwyd y canlyniadau cenedlaethol cyntaf o Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 a byddem yn croesawu eich barn ar y datganiad - e-bostio atom yn uniongyrchol gyda'ch adborth.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi Dangosydd Canlyniadau, sydd ar gael ar ein gwefan sy'n galluogi defnyddwyr i weld y data mewn mwy o fanylder. Bydd y Dangosydd yn cael ei ddiweddaru a'i ehangu wrth i ragor o ddadansoddiadau gael eu cynnal. Gan fod y prif ganlyniadau wedi'u cyhoeddi, rydym yn gweithio ar ddadansoddiad pwnc benodol mwy manwl (ar y lefel genedlaethol). Bydd adroddiad ar Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn cael ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth. Cewch ragor o fanylion am y cyhoeddiadau arfaethedig ar wefan ACTC.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd dau dabl StatsCymru: Canran yr anheddau sydd heb beryglon a Chanran yr anheddau gyda pherfformiad ynni digonol, yn unol â Dangosyddion Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd amcangyfrifon pennawd tlodi tanwydd ar gael fis Ebrill 2019, gydag adroddiad manwl i ddilyn yn yr haf.

**Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru (HSAR)**

Ar ôl creu fersiwn profi cysyniad yr HSAR yn 2018, gwelwyd y gwaith yn arafu yn yr hydref i ganolbwyntio ar ddadansoddi canlyniadau Arolwg Cyflwr Tai Cymru. Mae gwaith ar HSAR bellach wedi ailgychwyn ac rydym yn gweithio ag Uned Ymchwil Data Gweinyddol Llywodraeth Cymru i gyflwyno achosion busnes i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer rhannu data perthnasol o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol. Mae'r setiau data hyn yn cynnwys data HMRC, DWP a VOA. Bydd data presennol HSAR yn cael ei drosglwyddo i ddatrysiad lletya tymor hir (Platfform e-Ymchwil Diogel y DU) yn ystod y gwanwyn ac rydym yn gobeithio ychwanegu gwybodaeth am ddefnydd o ynni, mesuryddion deallus a mesuryddion rhagdalu ac ymgysylltu â darparwyr tai cymdeithasol gyda'r nod o gael defnyddio eu data rheoli stoc.

**Allbynnau ystadegol ar dai**

Mae'r datganiadau i gyd ar gael ar-lein

Ar 25 Chwefror, cyhoeddodd SYG wybodaeth am 'Farwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr, 2013-2017-data lefel ALl '.

**Grŵp Ystadegau Tai Traws-lywodraethol**

Cyhoeddodd y Grŵp Ystadegau Tai Traws-lywodraethol adroddiad pwnc yn canolbwyntio ar y sector rhentu preifat ar 18 Ionawr 2019. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys fframwaith cysyniadol ystadegau tai a chynllunio ledled y DU ar gael ynghyd â chynllun gwaith cyfredol y grŵp.

Mae tîm cysoni Gwasanaethau Ystadegau y Llywodraeth yn cynnal ac yn datblygu ystod o egwyddorion a safonau cytûn a gymeradwyir yn llawn ar gyfer data gweinyddol. Mae'r tîm cysoni wedi bod yn edrych ar ddichonoldeb diffiniad cytûn o ddigartrefedd ledled y DU a chyhoeddwyd adroddiad cychwynnol ar y canfyddiadau ddydd Iau 28 Chwefror 2019.

**Amcangyfrifon angen a galw am dai**

Cyhoeddwyd Amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru ar 30 Ionawr 2019. Cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ddatganiad ysgrifenedig ar yr un diwrnod. Maent yn amcangyfrifon am y cyfnod 2018/19 hyd 2037/38 ac fe'u cyflwynir ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Maent yn ymwneud â'r angen am unedau tai ychwanegol ac maent yn seiliedig ar amcangyfrifon o angen presennol heb ei ddiwallu ac angen sydd newydd godi. Bydd yr amcangyfrifon yn sail i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a datblygiad y polisi tai.

Yn y pum mlynedd cyntaf (2018/19 hyd 2022/23) amcangyfrifir y bydd angen cyfartaledd o rhwng 6,700 a 9,700 o unedau tai ychwanegol yng Nghymru bob blwyddyn (gydag amcangyfrif canolog o 8,300). Mae'r amcangyfrifon yn lleihau'n raddol yn ystod y 15 mlynedd dilynol i amcangyfrif canolog o lai na 4,000 erbyn canol y 2030au. Mae hyn yn adlewyrchu arafwch yn yr amcanestyniad o'r twf mewn aelwydydd yn yr amcanestyniadau aelwydydd, sail-2014.

Bydd amcangyfrifon wedi'u dadansoddi'n ôl deiliadaeth tai'n cael eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2019.

## Iechyd

### Teclyn ystadegau iechyd a gofal rhyngweithiol

Er mwyn helpu defnyddwyr i ddod o hyd i ystadegau iechyd a gofal, cynhyrchwyd offeryn rhyngweithiol. Mae'r offeryn yn rhoi'r datganiadau cyfredol a blaenorol ac maent yn edrych ar amrywiaeth eang o bynciau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal yng Nghymru. Mae modd chwilio'n ôl pwnc, yn ôl sefydliad, daearyddiaeth neu allweddair. Mae'n dal i gael ei ddatblygu a byddem yn gwerthfawrogi cael adborth arno.

Am ragor o wybodaeth anfonwch e-bost at Ystadegau.Iechyd@llyw.cymru.

## Arolwg Cenedlaethol

Mae rhestr lawn o'r bwletinau sydd wedi cael eu cyhoeddi a'r rhai sydd ar y gweill ar gael ar wefan yr Arolwg Cenedlaethol.

Mae peilot ar gyfer Arolwg Cenedlaethol 2019-20 ar waith ar hyn o bryd, ac mae'r dangosydd cwestiynau bellach wedi'i ddiweddaru i gynnwys y cwestiynau yn holiadur 2019-20.

Bydd y canlyniadau o gwestiynau 2019-20 ar gael ym Mehefin 2020.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar wefan yr Arolwg Cenedlaethol neu ebost Arolygon@llyw.cymru.

## Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Daeth yr ymgynghoriad ar y dangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2019 i ben ddydd Llun 17 Rhagfyr 2018, a byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a diweddariad ar ein cynlluniau fis Ebrill.

Mae rhagor o wybodaeth am MALIC ar gael ar-lein.

### Cydraddoldeb

Ym mis Ionawr diweddarodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fwletin blynyddol ar gyflwyno data ar gyfeiriadedd rhywiol o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS). Mae'r bwletin hwn yn cynnwys ffigurau pennawd ar gyfer Cymru. Ym mis Chwefror, diweddarwyd tablau StatsCymru gyda data a

gymerwyd o fwletin diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ogystal â'n dadansoddiad ychwanegol ni o set data gyfun sy'n cyfuno 3 blynedd o ddata APS.

Anfonwch eich adborth atom, neu gofynnwch am ragor o wybodaeth: ebost Ystadegau.Cynhwysiant@llyw.cymru.

**Tân**

Cyhoeddwyd data amodol ar danau a galwadau ffug am y cyfnod Ebrill i Fedi 2018 ym mis Chwefror. Cafodd detholiad o dablau StatsCymru hefyd eu diweddaru i ddangos tanau'n ôl math (prif, eilaidd, glaswelltir ac ati), nifer anafiadau a marwolaethau a galwadau ffug. Bydd y data'n cael ei ddiwygio pan gyhoeddir y bwletin blynyddol ym mis Awst 2019.

## Trafnidiaeth

Rydym wedi cyhoeddi diweddariadau i ystadegau ar ddefnydd gorsafoedd rheilffordd, damweiniau ffyrdd, yfed a gyrru, teithio llesol a throseddwyr moduro.

## Llesiant Cymru

Fel y nodwyd yn ein diweddariad diwethaf, mae Awdurdod Ystadegau'r DU wedi bod yn asesu i ba raddau mae Llesiant Cymru yn cyrraedd y safonau proffesiynol a osodwyd yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau statudol. Fel rhan o hyn, maent am glywed eich barn ar ystod y cynhyrchion a gynhyrchir gennym fel rhan o'n hadroddiad blynyddol. Cewch ragor o wybodaeth am yr asesiad a sut i rannu eich barn ar eu gwefan.

Rydym unwaith eto'n bwriadu cyhoeddi adroddiad blynyddol Llesiant Cymru ym mis Medi. Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, darllenwch ddiweddariad y Prif Ystadegydd ar ein cynlluniau i newid fformat yr adroddiad. Er mwyn ein helpu i gynhyrchu allbynnau sy'n ateb eich anghenion cysylltwch â ni i ddweud wrthym sut yr ydych yn defnyddio cynnyrch Llesiant Cymru a hefyd i roi eich barn ar y newidiadau arfaethedig i'r adroddiad.

## Y Gymraeg

Yn ddiweddar bu Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â defnyddwyr ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei weld yn yr Arolwg Defnydd Iaith nesaf. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn data am ddefnydd o'r Gymraeg ac nad ydych wedi cael cyfle eto i ymateb i'r ymgysylltiad â defnyddwyr, cysylltwch â blwch post data'r Gymraeg gyda'ch sylwadau.

## Manylion Cyswllt ar gyfer Ystadegau Llywodraeth Cymru

**Ymholiadau cyffredinol yn ymwneud ag ystadegau**

E-bost: Desg.Ystadegau@llyw.cymru Ffôn: 03000 604400

**Yn benodol i'r pwnc**

Cysylltiadau ar gyfer ystadegau

Twitter

YstadegauCymru

**Gwasanaeth newyddion a hysbysiadau e-bost Llywodraeth Cymru**

Newyddion a rhybuddion

**Ymholiadau gweinyddol**

E-bost GweinydduGGD@llyw.cymru